

Adroddiad Blynyddol 2022

Corffennaf 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDeisebau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Deisebau@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddDeisebau](https://twitter.com/SeneddDeisebau)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad Blynyddol 2022

Gorffennaf 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDeisebau

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Jack Sargeant AS
Llafur Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Joel James AS
Ceidwadwyr Cymreig



Buffy Williams AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
1. Cyfeiriad Strategol	7
Cylch gorchwyl y Pwyllgor.....	7
Arloesi	9
2. Ymateb i waddol y deisebau	11
3. Deisebau’r Flwyddyn.....	13
Cymorth mewn profedigaeth.....	13
Canlyniad.....	15
Incwm Sylfaenol Cyffredinol.....	15
Canlyniad.....	15
Gwarchod Gwiwerod Coch.....	15
Canlyniad.....	16
Aelodau prosthetig	16
Canlyniad.....	17
Dadl Sgrinio Serfigol	18
Canlyniad.....	18

Rhagair y Cadeirydd

Mae creu pwyllgor newydd yn gofyn am foment o fyfyrto a newid, ac yn gyfle i ailfeddwl beth yw pwrpas y Pwyllgor, a'r hyn y mae am ei gyflawni.

Ddeuddeg mis yn ôl, roedd yn anrhydedd i mi gael fy ethol i gadeirio'r Pwyllgor Deisebau newydd. Goruchwyliodd y pwyllgor a'n rhagflaenodd newid sylweddol yn nifer a maint y deisebau a gyflwynwyd i'r Senedd, gan gasglu dros 1 miliwn o lofnodion rhwng 2016 a 2021.

Pan gefais fy ethol, fi oedd yr Aelod o'r Senedd ieuengaf erioed i ddod yn Gadeirydd Pwyllgor a dyna wnaeth lywio fy mwriadau ar gyfer taith y Pwyllgor yn y dyfodol. Rwyf wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y Pwyllgor Deisebau yn parhau i fod yn beiriant ar gyfer ymgysylltu â phobl Cymru yng ngwaith eu Senedd, ac i gyflymu'r broses honno. Ar yr un pryd, roeddwn am ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod y Pwyllgor yn gosod ei ymdrech a'i adnoddau y tu ôl i'r deisebau hynny sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hynny rydym wedi datblygu'r modd y mae'r pwyllgor yn gweithio; cofleiddio technoleg newydd – ar gyfer ein cyfarfodydd ac wrth wella'r wefan ddeisebau fel ei gilydd; ac os yw amodau wedi caniatáu, rydym wedi ceisio mynd allan a chwrdd â deisebwyr a chlywed hanesion y rheini sydd â phrofiad byw o'r materion a godwyd mewn deisebau.

Mae'n destun balchder mawr i mi bod gwaith y Pwyllgor deisebau, o dan fy arweinyddiaeth, yn fwy amrywiol nag erioed. Er bod ymateb y llywodraeth i bandemig y Coronafeirws wedi parhau i fod yn nodwedd gref mewn deisebau, mae yna themâu cyson eraill. Mae materion ynghylch lles anifeiliaid, yr anhawster o gadw adeiladau poblogaidd yn ein cymunedau, a materion trafndiaeth hefyd wedi bod yn boblogaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o lwyddiannau'r flwyddyn – y deisebau a arweiniodd at newid gwirioneddol gan gynnwys cymorth yn sgil profedigaeth, Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI), amddiffyn gwiwerod coch, coesau prosthetig a sgrinio serfigol i enwi dim ond rhai.

Hyderaf y byddant yn ysbrydoli eraill i wybod bod yna fodd o roi llwyfan i'ch materion wrth galon democratiaeth Cymru; y bydd eich Senedd yn gwranddo ar eich pryderon, ac yn trafod y materion sydd o bwys i chi.

A handwritten signature in black ink that reads "JACK SARGEANT." The signature is written in a cursive style. A horizontal line with an arrowhead at the right end is drawn across the bottom of the signature.

Jack Sargeant,

Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

1. Cyfeiriad Strategol

Mae'r bennod hon yn nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol y Pwyllgor Deisebau.

1. Cytunodd y Pwyllgor ar rai blaenoriaethau ac amcanion strategol yn ei gyfarfodydd cynnar i lywio ei waith dros y pedair blynedd nesaf.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

2. Cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, fel y cytunodd y Senedd arno ar 23 Mehefin 2021, yw:

"[...] cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 23."

3. Yn ein trafodaeth gychwynnol, cydnabu'r Aelodau – yn unigryw ymhlith Pwyllgorau'r Senedd – mai pobl Cymru, ynghyd â'r materion y maent yn teimlo'n angerddol yn eu cylch, sy'n gosod agenda'r Pwyllgor Deisebau.

4. Mae Rheol Sefydlog 23 yn nodi rhai swyddogaethau y mae'n rhaid i'r Pwyllgor eu cyflawni.

5. Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- Byddwn yn blaenoriaethu gwaith a all olygu newid gwirioneddol i'n cymunedau.
- Byddwn yn bwyllgor gweladwy sy'n mynd allan ac yn ymgysylltu â phobl ledled Cymru.
- Byddwn yn annog deisebau o ansawdd uwch a all lywio polisi, a hyrwyddo enghreifftiau llwyddiannus o ddeisebau sy'n arwain at newid polisi.

Monitro a gwerthuso

6. Ar ddiwedd y Bumed Senedd, cynhyrchodd y cymrawd academiaidd, yr Athro Diana Stirbu, **Adroddiad**¹ manwl yn ystyried sut y dylai'r Senedd werthuso gwaith ei bwyllgorau. Mae'n rhoi pwyslais mawr ar Bwyllgorau i fyfyrion rheolaidd ar eu proses, a'u heffaith eu hunain. At hynny, mae'n nodi bod mesur effaith yn gymhleth, ac yn annog Pwyllgorau i ystyried y modd

¹ Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau, yr Athro Diana Stirbu, Coleg Prifysgol Llundain. May 2021

y gellid gwneud defnydd o leisiau allanol fel rhan o'r broses. Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu cyfres o fecanweithiau i fyfrio ar ei brosesau a'i effaith – yn unol â'r argymhellion hynny.

7. Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu arfer o adolygu ei waith yn rheolaidd mewn sesiwn breifat fer ar ddiwedd pob cyfarfod, ac mae'n bwrw golwg ymlaen ar y nifer o ddeisebau sy'n casglu llofnodion ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn yn rhan o ymrwymiad gan y Pwyllgor i fyfrio'n ddyfnach ar flwyddyn o waith, a chaiff ei ailadrodd yn y blynyddoedd i ddod. At hynny, bydd yn gyfle i ailasesu a oes angen rhagor o waith ar y trothwyon, y confensiynau a'r normau sy'n rhan o'r broses ddeisebu.

8. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys ymateb llawn i Adroddiad Gwaddol y pwyllgor rhagflaenol. Y pumed 'adroddiad blynyddol' – sef yr un olaf – fydd ein hadroddiad gwaddol i unrhyw bwyllgor yn y dyfodol ei ystyried.

9. Yn wahanol i bwyllgorau eraill, mae'r broses ddeisebau yn cynhyrchu cyfres o ystadegau sy'n gweithredu fel procsiaid at ddibenion perfformiad. Ar gyfer unrhyw gyfnod penodol mae modd mesur a chymharu:

- nifer y deisebau a godwyd;
- y nifer sy'n cyrraedd y trothwy o 250 llofnod er mwyn eu hystyried; a'r
- nifer sy'n cyrraedd y trothwy o 10,000 o lofnodion, lle cânt eu hystyried ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn.

10. Er bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar wella ansawdd deisebau yn hytrach na chynhyrchu niferoedd cynyddol, os yw'r Pwyllgor yn cyflawni ei amcanion, ni fyddem yn disgwyl i'r ffigurau hyn ostwng.

11. Ar gyfer y flwyddyn Mai 2021-Ebrill 2022, crëwyd 263 o ddeisebau, a gwrthodwyd 138 (fel arfer oherwydd eu bod yn ymwneud â phwnc y tu allan i gyfrifoldeb y Senedd neu Lywodraeth Cymru). Mae'r Pwyllgor wedi ystyried 90 o ddeisebau newydd wnaeth ddenu cyfanswm o 195,556 o lofnodion. Cynhaliwyd pedair dadl ar ddeiseb, ac mae dwy ddeiseb arall a gyrhaeddodd y trothwy o 10,000 o lofnodion yn casglu tystiolaeth bellach cyn cael eu hystyried ar gyfer dadl.

Ffyrdd o weithio

12. Canmolodd yr aelodau drylwyrdd y papurau a gafwyd ar gyfer eu cyfarfod cyntaf, ond roedd y pecyn papur yn cynnwys 273 o dudalennau. Nododd y tîm clericio fod hyn yn eithriadol o uchel, a chytunwyd i gynhyrchu papurau symlach ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

13. Ers llacio rheoliadau'r Coronafeirws, mae'r Aelodau wedi ceisio defnyddio'r ystod lawn o offer – a chreu rhai newydd os oes angen – er mwyn dwyn deisebau yn eu blaenau. Yn ogystal â gohebiaeth, casglu tystiolaeth ac ysgrifennu adroddiadau, mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynnal ymweliadau ar safleoedd, wedi comisiynu grwpiau ffocws a fideos, ac wedi gofyn i Bwyllgorau eraill y Senedd ystyried deisebau yn eu gwaith. Mae hyn wedi bod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â phryderon deisebwyr, yn enwedig lle'r oedd Pwyllgorau eraill y Senedd yn cynllunio darn mwy manwl o waith ar y pwnc.

Cyflwyno deisebau

14. Yn draddodiadol, mae deisebwyr wedi cyflwyno deisebau i'r Pwyllgor ar risiau'r Senedd. Mae hyn wedi bod yn gyfle i ymgyrchwyr hyrwyddo eu hachos. Cafodd yr arfer hwn ei oedi yn ystod cyfnod cyfyngiadau'r Coronafeirws, ond mae bellach wedi aildechrau.

Arloesi

15. Roedd cyflwyno Gwefan Deisebau newydd y Senedd yn 2020 yn newid mawr o ran gwaith y Pwyllgor. Roedd y rhyngwyneb cydnaws â ffonau symudol yn ei gwneud yn haws creu a chefnogi deiseb, gan arwain at gynnydd nodedig yn y deisebau a grëwyd, a chyfanswm y llofnodion fel ei gilydd.

16. Dros y Pasg yn 2021, ychwanegwyd swyddogaeth fapio at wefan deisebau'r Senedd sy'n galluogi'r cyhoedd i weld 'map gwres' sy'n dangos lle mae deisebau wedi'u llofnodi. Gellir gweld hwn fesul etholaeth neu ranbarth, ac mae'n hawdd ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

ENGLISH

Deisebau

< Nôl


Rhannwch fap y ddeiseb

Dyma sut olwg fydd ar eich post:



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Dieisebau



petitions.senedd.wales

Deiseb: Achub yr Adran Damweiniau ac Achosion...

Mae symud gofal allan o'r sir yn rhoi oedolion a plant sydd mewn perygl o ganlyniadau...



Facebook



E-bost



Twitter



Whatsapp

Hafan

Pob deiseb

Dechrau deiseb

2. Ymateb i waddol y deisebau

Gwnaeth Pwyllgor Deisebau'r Bumed Senedd gyfres o argymhellion yn ei adroddiad gwaddol. Mae'r bennod hon yn nodi sut y mae'r pwyllgor wedi dwyn yr argymhellion hynny yn eu blaenau.

Tabl 1 Ymatebion y Pwyllgor i argymhellion Pwyllgor Deisebau'r Bumed Senedd.

Argymhelliad gwaddol	Camau gan y Pwyllgor
<p>Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell y dylai ein pwyllgor olynol ystyried ar y dechrau sut y mae'n bwriadu nodi'r deisebau y mae'n dymuno craffu'n fanwl arnynt, ac i ddarparu adnoddau ar gyfer ei waith yn unol â hynny.</p>	<p>Derbyniwyd. Bu'r pwyllgor yn trafod a chytuno ar ei flaenoriaethau strategol o'r dechrau'n deg.</p> <p>Mae'r Aelodau'n adolygu'r nifer o ddeisebau sydd ar y gweill yn rheolaidd ac yn gwneud asesiad o faterion lle teimlwn y gallwn wneud gwahaniaeth.</p> <p>Mae'r Aelodau'n trin pob deiseb sy'n cyrraedd y trothwy i'w hystyried ar sail gyfartal, ond yn rhoi pwys ar raddfa ac effaith bosibl y camau y mae deisebwyr yn gofyn amdanynt, ac a oes unrhyw un arall yn gwneud (neu'n debygol o wneud) y gwaith hwn ai peidio.</p>
<p>Argymhelliad 2. Dylai ein pwyllgor olynol geisio datrys y mwyafrif o ddeisebau mewn modd amserol, er budd deisebwyr ac i sicrhau bod ganddo'r amser a'r gallu i gynnal gwaith craffu manwl ar faterion o'i ddewis. Os y bydd y nifer fawr o ddeisebau yn parhau, bydd hyn yn debygol o olygu cytuno i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach ar rai deisebau yn dilyn eu hystyriaeth gychwynnol.</p>	<p>Derbyniwyd. Mae'r Pwyllgor wedi ceisio gwneud hyn cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir y gall rhai deisebau – yn enwedig y rheini sy'n ymateb i gamau tymor byr gan y llywodraeth – fod yn amherthnasol erbyn iddynt gau at ddibenion llofnodion. Bydd rhai, wedyn, lle mae ymgynghoriad neu adolygiad yn allweddol i'r canlyniad terfynol, yn golygu'r angen am amynedd ychwanegol ar bob adeg.</p> <p>Yn unol ag awydd yr Aelodau i neilltuo mwy o amser ac ymdrech i'r deisebau hynny lle mae'n bosibl gwneud gwahaniaeth, mae llawer o ddeisebau wedi'u cau yn dilyn yr ystyriaeth gychwynnol a roddwyd iddynt.</p>
<p>Argymhelliad 3. Yn seiliedig ar ein profiad o ystyried deisebau sy'n sensitif o ran amser yn ystod</p>	<p>Derbyniwyd. Rydym wedi gwneud ymdrechion i wneud hyn. Er enghraifft, y ddeiseb ar sgrinio serfigol, lle arweiniodd cyhoeddiad iechyd y cyhoedd</p>

Argymhelliad gwaddol	Camau gan y Pwyllgor
<p>pandemig Covid-19, rydym yn argymhell y dylai'r pwyllgor nesaf ystyried a ddylid cyfeirio deisebau ato ar y cyfle cyntaf ai peidio, hyd yn oed pan fyddant yn dal i gasglu llofnodion. Dylai'r ystyriaeth hon gynnwys a fyddai hyn yn achosi anawsterau ymarferol a'r effaith y byddai newid o'r fath yn ei chael ar weinyddu'r broses ddeisebau.</p>	<p>ar 4 Ionawr at greu deiseb, wedi'i llofnodi gan 30,000 o bobl, a dadl yn y Cyfarfod Llawn o fewn pythefnos.</p> <p>Yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd mae Aelodau, bellach, yn cael trosolwg o ddeisebau poblogaidd neu nodedig sydd ar agor i'w llofnodi er mwyn llywio blaenoriaethau gwaith yn y dyfodol.</p> <p>At hynny, mae'r tîm clericio wedi cynghori deisebwyr i gwtogi dyddiadau cau ar ddeisebau, neu i'w cau'n gynnar, lle mae sensitifrwydd penodol o ran amser.</p> <p>Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r broses ddeisebu yn cael ei gwasanaethu orau drwy gyfrwng ymchwilio i'r materion, a chynnal deialog gyda'r rheini sy'n ceisio newid, a'r rheini sydd â'r pŵer i'w gyflawni. Gall gymryd amser i wneud y rhain yn dda.</p>
<p>Argymhelliad 4. Dylid rhoi ystyriaeth fanylach i weld a yw'r trothwy presennol o 50 llofnod ar gyfer ystyried deiseb yn parhau i fod yn briodol, neu a ddylid ei gynyddu yn gynnar yn y Chweched Senedd.</p>	<p>Derbyniwyd. Ar ôl dadansoddi'r data, a nodi'r cynnydd amlwg mewn llofnodion o ganlyniad i gyflwyno gwefan newydd sy'n gydnaws â ffonau symudol ar gyfer deisebau, cytunodd yr Aelodau i ofyn am newid i'r rheolau sefydlog. Ers 1 Ionawr 2022, y trothwy ar gyfer ystyried deiseb yw 250 o lofnodion.</p>
<p>Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell y dylid cadw'r trothwy ar gyfer ystyried dadleuon ar ddeisebau ar 10,000 o lofnodion ac y dylai'r Pwyllgor Deisebau gadw ei ddisgresiwn i benderfynu pa ddeisebau a gaiff eu cyfeirio ar gyfer dadl. Nodwn y gallai fod yn bosibl lleihau'r trothwy hwn yn y dyfodol pe bai nifer y deisebau yn lleihau</p>	<p>Derbyniwyd. Cytunodd yr Aelodau ar yr argymhelliad hwn yn gynnar yn y tymor. Mae'r trothwy uwch yn dal i fod wedi arwain at gynnal dadleuon yn rheolaidd ar ddeisebau drwy gydol y flwyddyn.</p>

3. Deisebau'r Flwyddyn

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i hyrwyddo'r broses ddeisebu, ac i arddangos y modd y gall pobl Cymru greu newid gwirioneddol yn eu cymunedau, ac mewn polisi cenedlaethol.

17. Yr astudiaethau achos a ganlyn yw ein henwebiadau cyntaf ar gyfer Deiseb y Flwyddyn. Mae Deisebau'r Flwyddyn yn gysyniad newydd, gyda'r bwriad o arddangos deisebau llwyddiannus neu nodedig. Mae'n rhan o awydd y Pwyllgor i hyrwyddo enghreifftiau llwyddiannus o ddeisebau sy'n arwain at newid polisi.

18. Yn unol â'r syniad mai pobl Cymru sy'n gosod yr agenda ar gyfer y Pwyllgor Deisebau, ymddengys ei bod ond yn deg mai pobl Cymru ddylai ddewis pa ddeiseb gafodd yr effaith fwyaf. Byddwn yn creu pleidlais i ganiatáu i ddilynwyr bleidleisio dros ba un o'r deisebau enwebedig sydd wedi cael yr effaith fwyaf, yn eu barn nhw.

Cymorth mewn profedigaeth

Cynorthwyo teuluoedd sy'n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i helpu i ddarparu gwasanaeth yma yng Nghymru i sicrhau bod teuluoedd sy'n colli plant neu bobl ifanc 25 oed neu iau yn annisgwyl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Ym mis Chwefror 2012, bu farw fy mab, George, yn sydyn mewn Uned Frys yng Nghymru. Fe gerddon ni allan i'r nos heb ddim, ar ein pennau'n hunain ac mewn braw. Ni ddaeth neb, nid oedd neb yno i estyn llaw, gan adael ffrindiau ac aelodau'r teulu, a hwythau mewn galar hefyd, i'm cynnal i a Paul fy ngŵr. Bum niwrnod ar ôl colli ein mab, bu'n rhaid i mi a'm dau blentyn ifanc arall wynebu torcalon eto pan wnaeth Paul ladd ei hun. Unwaith eto, ddaeth neb.

Mae angen cymorth ar unwaith ar deuluoedd sy'n wynebu colled o'r fath. Mae angen iddynt wybod y gallant gysylltu â rhywun i ofyn cwestiynau a chael clust i wrando. Mae colli plentyn yn effeithio arnoch am byth, ac mae angen i deuluoedd wybod bod cymorth hirdymor ar gael i'w helpu drwy'r broses o alaru.

Nid oes modd cynllunio na pharatoi ar gyfer colli plentyn yn annisgwyl, a gall y profiad ingol hwn effeithio ar iechyd meddwl rhieni, brodyr a chwirydd a gweddill y teulu. Rydym yn credu

bod y cymorth hwn yn hanfodol ac y bydd yn atal teuluoedd rhag gorfod cerdded allan i'r nos heb ddim gobaith, heb ddim cymorth ac, yn bwysicach na dim, heb eu plentyn.

19. Ar ôl iddi gael ei hystyried yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2019, cytunodd Pwyllgor y Bumed Senedd i ofyn am ddatl ar ôl cyhoeddi adolygiad o wasanaethau profedigaeth. Gofynnwyd am y ddatl yn dilyn ail gyfarfod ym mis Chwefror, ond o ganlyniad i COVID, methwyd ei cynnal fel ag y rhagwelwyd.

20. Cytunodd y Pwyllgor newydd i ofyn am slot newydd ar gyfer cynnal datl ym mis Medi, ac fe ddigwyddodd hynny ar 15 Tachwedd 2022.

21. Wrth ymateb i'r deisebydd, dywedodd y Gweinidog:

*"Gan droi yn awr at yr hyn y mae'r ddeiseb rydym yn ei hystyried heddiw yn gofyn amdano, rwy'n llwyr gydnabod yr angen i sicrhau bod llwybr atgyfeirio cyson a chllir ar gael ar unwaith i deuluoedd sy'n colli plentyn neu unigolyn ifanc ni waeth ble y maent yng Nghymru. Rwyf wedi ymrwymo, fel Dirprwy Weinidog, i sicrhau ein bod ni yng Nghymru yn cyflawni hynny. Felly, rwy'n ymrwymo i weithio gyda Rhian, ei sefydliad ac eraill ar y grŵp llywio cenedlaethol i roi safon ar waith sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddarparu cymorth o'r fath. Bydd Rhian ac aelodau eraill o brofiad y grŵp yn hanfodol wrth ein cynorthwyo i lunio'r safon hon fel ei bod yn ddigon cadarn i nodi a yw byrddau iechyd yn cynnig y cymorth hwnnw'n rhagweithiol mewn ffordd gyson ledled Cymru. Rwy'n ymrwymo i'r Senedd heddiw hefyd y byddaf, fel Gweinidog, yn sicrhau bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo ar fyrder. Rwy'n gobeithio bod Rhian, y bŵm yn gweithio gyda hi ar y ddeiseb cyn iddi gyrraedd y Llywodraeth, yn fy adnabod yn ddigon da i wybod y byddaf yn cadw at fy ngair ar hyn."*²

22. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd ei bod wedi sicrhau bod "£420,000 ychwanegol ar gael i fyrddau iechyd yn 2022-23 a 2023-24 i helpu gyda chydgyssylltu gwaith profedigaeth a gweithredu'r safonau profedigaeth."³ Cyhoeddodd hefyd "grant cymorth profedigaeth o £1 filiwn i'n partneriaid yn y trydydd sector ar gyfer y tair blynedd nesaf."⁴

² Cofnod o'r trafodion, 3 Tachwedd 2021. Paragraff 308

³ Cofnod o'r trafodion, 3 Tachwedd 2021. Paragraff 309

⁴ Cofnod o'r trafodion, 3 Tachwedd 2021. Paragraff 309

Canlyniad

23. Clywodd y ddadl ddeiseb lefel uchel o ganmoliaeth i'r ymgyrch i gefnogi'r ddeiseb hon ac i sicrhau lefelau uwch o gefnogaeth i deuluoedd mewn profedigaeth. Yn ogystal â darparu cyllid, cytunodd y Llywodraeth hefyd i weithio gyda'r deisebydd a'r elusen a sefydlodd i sicrhau bod lefel gyson o gymorth rhagweithiol ar gael ledled Cymru.

Incwm Sylfaenol Cyffredinol

Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl

24. Casglodd y ddeiseb hon 1,051 o lofnodion. Cytunodd y Pwyllgor i gymryd tystiolaeth gan grwpiau sy'n cefnogi'r ddeiseb, er mwyn llunio adroddiad byr⁵ ym mis Ionawr 2022 a oedd yn crynhoi rhywfaint o waith ymchwil manylach, ac yn cynnwys pum argymhelliad ar gyfer y Llywodraeth. Yn ystod Etholiad y Senedd yn 2021 roedd y Blaid Lafur wedi gwneud addewid yn ei maniffesto i gyflwyno cynllun peilot.

25. Yn ei **ymateb i'r adroddiad**, derbyniodd Llywodraeth Cymru dri o'r argymhellion, a derbyniodd y ddau arall mewn egwyddor.

26. Wrth gau'r ddeiseb, croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod yr holl argymhellion a wnaed yn ei adroddiad naill ai wedi'u derbyn neu wedi'u derbyn mewn egwyddor. At hynny, llongyfarchwyd y deisebydd ar y canlyniad llwyddiannus.

Canlyniad

Tynnodd y ddeiseb a'r ymchwiliad bychan sylw at y cynllun peilot, a herio Llywodraeth Cymru i ddatblygu treial ehangach, mwy gwerthfawr sydd, i bob golwg, yn mynd i gael ei gyflawni.

Gwarchod Gwiwerod Coch

Deddfau newydd i amddiffyn gwiwerod coch prin rhag colli cynefinoedd sy'n achosi dirywiad yn eu poblogaeth

Mae'n anghyfreithlon lladd neu anafu gwiwer goch. Eto i gyd, nid yw coedwig sy'n eu cynnwys yn cael ei gwarchod a gellir ei thorri i lawr.

⁵ Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol i Gymru, Ionawr 2022, y Pwyllgor Deisebau

Er bod angen trwydded torri coed er mwyn cwmpo coetir, ni ellir gwrthod y trwyddedau hyn hyd yn oed os ydyn nhw'n arwain at golli cynefin a dirywiad ym mhoblogaeth y wiwerod coch.

Nid oes angen trwydded ar goedwigoedd sy'n eiddo i'r wladwriaeth, ond fe'u rheolir o dan gynlluniau sy'n para 10 mlynedd neu fwy. Nid oes yn rhaid iddyn nhw asesu effaith gronnol cwmpo coed ar boblogaethau gwiwerod coch o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'n rhaid i hyn newid.

27. Casglodd y ddeiseb gwiwerod coch 10,553 o lofnodion. Cynhaliwyd y ddadl ar 8 Rhagfyr 2021, ac roedd yn cynnwys cyfraniadau gan Aelodau o bob plaid.

28. Yn ystod y ddadl, nododd y Gweinidog Newid yn yr Hinsawdd gyfyngiadau'r ddeddfwriaeth bresennol a gwnaeth ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth newydd gyda'r bwriad o ddiogelu gwiwerod coch a bywyd gwyllt arall.

*"Dyna pam ein bod wedi ymrwmo i gynnwys darpariaethau yn y Bil amaethyddiaeth sy'n diwygio'r Ddeddf Goedwigaeth er mwyn caniatáu ar gyfer ychwanegu amodau at drwyddedau cwmpo coed. Byddwn hefyd yn cynnwys darpariaethau i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwmpo coed ar ôl iddynt gael eu rhoi. Bydd y diwygiadau hyn yn helpu i ddarparu gwell amddiffyniad i fywyd gwyllt, ..., ac yn darparu gwell cydgysylltiad rhwng rheoliadau coedwigaeth a rheoliadau amgylcheddol eraill. Bydd y ddeddfwriaeth berthnasol i ddiwygio'r Ddeddf Goedwigaeth yn cael ei chyflwyno'n fuan iawn."*⁶

- Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd.

Canlyniad

29. Sicraodd y ddadl ar y ddeiseb gefnogaeth drawsbleidiol i amddiffyn gwiwerod coch i raddau mwy helaeth yng Nghymru, ac ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth newydd i sicrhau'r amddiffyniad hwnnw.

Aelodau prosthetig

Dylid sicrhau bod technoleg yr aelodau prosthetig a ddarperir gan GIG Cymru cystal â'r hyn a geir yng ngweddill y DU.

⁶ Cofnod y Trafodion, 8 Rhagfyr 2021. Paragraff 230

Rydym yn galw ar y Senedd i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ar gael i alluogi pobl o Gymru sydd wedi colli rhan o'u corff i gael technoleg brosthetig sydd o leiaf cystal â'r hyn sydd ar gael yng ngwasanaethau iechyd gwladol Lloegr a'r Alban.

Gofynnwn am i'r un lefel o gefnogaeth fod ar gael i bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae GIG yr Alban wedi darparu aelodau prosthetig a reolir gan ficrobroesydd ers sawl blwyddyn, ac mae GIG Lloegr wedi eu darparu er 2016. Mae polisi Cymru i fod i gael ei adolygu er 2017.

30. Er iddi gael ei rhoi ar waith yn swyddogol yn y Bumed Senedd, roedd y ddeiseb hon yn un o blith nifer o ddeisebau gwaddol a ystyriwyd gan y pwyllgor newydd yn ei gyfarfod cyntaf. Canmolodd yr Aelodau waith y deisebydd wrth godi ymwybyddiaeth o'r mater, a sicrhau chwarae teg i'r rheini sydd wedi'u colli breichiau neu goesau yng Nghymru.

31. Canmolodd y deisebydd David Bradley waith y Pwyllgor yn herio Llywodraeth Cymru, a gwthio am ganlyniad gwell.

"In not accepting weak excuses and arguments and challenging ministerial responses we have now achieved a result that will make a substantial difference for the residents of Wales. ...A great result for all. Thank you to the committee for your hard work and support on behalf of all the signatories to the petition and on behalf of Welsh disabled residents. This success transforms lives."

– David Bradley

Canlyniad

32. Cyhoeddodd y Gweinidog gronfa newydd o £700k⁸ i ddarparu pengliniau prosthetig a reolir gan ficrobroesydd (neu MPK) arbenigol i gleifion cymwys yng Nghymru: Daeth y gronfa i fod ar gael o 1 Ebrill 2021 ymlaen i'r rheini sy'n gymwys, drwy wasanaeth prosthetig y GIG, yn ogystal â gwasanaeth adsefydlu'r GIG i'r rheini sydd wedi colli breichiau neu goesau. Yn sgil hynny, daeth y ddarpariaeth yng Nghymru i fod yn unol â gwledydd eraill y DU.

⁷ Gohebiaeth gan y deisebydd, 28 Mehefin 2021,

<https://business.senedd.wales/documents/s116352/Correspondence%20from%20the%20petitioner%2028%20June%202021.pdf>

⁸ https://llyw.cymru/cronfa-newydd-i-ddarparu-pengliniau-prosthetig-reolir-gan-ficrobroesydd?_ga=2.189828911.540880213.1654674086-961677764.1650872070

Dadl Sgrinio Serfigol

Adfer sgrinio serfigol i bob tair blynedd

Mae'r cyhoeddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 4 Ionawr 2022 i newid y cyfnod sgrinio serfigol o bob 3 blynedd i bob 5 mlynedd yn annerbyniol. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a mynegwyd dicter, tristwch a phryderon difrifol am iechyd serfigol menywod Cymru yn dilyn y datganiad.

Rydym yn sylweddoli bod y GIG yng Nghymru o dan bwysau, ond mae hyn yn ANNERBYNIOL. Ni fyddwn ni, y genedl Gymreig, yn derbyn hyn ac rydym yn eich annog i wyrddroi'r penderfyniad hwn ar unwaith.

33. Yn dilyn y cyhoeddiad ar 4 Ionawr am newid mawr i weithdrefnau sgrinio serfigol yng Nghymru, sicrhodd y ddeiseb hon (y gyntaf o chwech a gyflwynwyd ar y mater) 30,133 o lofnodion mewn ychydig ddyddiau.

34. Mewn ymateb i'r don ddigynsail o gefnogaeth i'r ddeiseb, gwnaeth y Pwyllgor y penderfyniad anarferol i ofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn cyn gynted â phosibl. Cynhaliwyd y dadl ar 19 Ionawr a bu'n llwyfan ar gyfer cynnal sgwrs genedlaethol am y pryderon a godwyd gan fenywod mewn ymateb i'r cyhoeddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

35. Yn ystod y dadl, nododd y Gweinidog Iechyd "y ffordd y cafodd hyn ei gyfathrebu" a bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymddiheuro ac yn adolygu'r modd y mae'n cyfleu negeseuon iechyd cyhoeddus. Roedd y Gweinidog yn gallu cynnig eglurhad dros y rhesymau sy'n sail i'r newid a pham y dylid ystyried bod hon yn stori newyddion dda.

Canlyniad

36. Rhoddodd y dadl ar y ddeiseb – a'r sylw a gafwyd yn y cyfryngau yn sgil hynny – lwyfan ag iddo broffil uchel i'r negeseuon bod y newidiadau wedi'u cymeradwyo gan weithwyr iechyd proffesiynol, a'u bod yn ganlyniad i profion gwell, sy'n meddu ar ffordd well o adnabod y rheini sydd â risg uwch o ddatblygu clefydau.